Rhyddid

Darlleniad: Salm 140

Arglwydd Iesu
byw a bendigedig,
daethost i 'bregethu'r newyddion da i
dlodion, i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion, ac adferiad golwg
i ddeillion, i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, i gyhoeddi
blwyddyn ffafr yr Arglwydd'.

Ein Harglwydd,
buost dan glo,
a'r milwyr yn dy daro, dy chwipio a'th wawdio;
dy drin yn sarhaus gan osod gwisg ysblennydd amdanat,
ymgrymu ger dy fron ac yna gwasgu coron o ddrain am dy
ben.

Fe wyddost yn iawn beth yw creulondeb.
Fe wyddost beth yw artaith ac unigrwydd caethiwed.

Yn dy enw,
gweddïwn dros dy bobl,
ein brodyr a'n chwiorydd a garcharwyd ar gam - carcharorion
cydwybod.
Y rhai a daflwyd i'r carchar oherwydd eu syniadau a'u daliadau.
Yn cael eu poenydio mewn rhyw swyddfa, cell neu seler y funud
hon, rywle yn y byd.

Gweddïwn am gyfiawnder.
Erfyniwn am ryddid.
Gweddïwn am dy nerth a'th arweiniad i'r holl ymdrechion
heddychlon i gynorthwyo a dadlau plaid y carcharorion hyn,
er mwyn eu sicrhau nad yw'r byw wedi anghofio amdanynt.
Gweddïwn drosom ein hunain fel dy bobl.
Carcharorion ydym oll.

Rhai ohonom yn gaeth i afiechyd a llesgedd; eraill mewn cadwynau gwendid a methiant.
(Eiliad o dawelwch.)
Rhai ohonom yn gaeth i amheuaeth ac ansicrwydd; eraill mewn cadwynau gofid ac ofn.
(Eiliad o dawelwch.)
Rhai ohonom yn gaeth y tu mewn i furiau rhagfarn; eraill wedi eu drysu gan amgylchiadau blin ac anodd.
(Eiliad o dawelwch.)
Rhai ohonom yn gaeth y tu mewn i furiau traddodiad ac arfer; eraill wedi eu drysu gan unigrwydd.
(Eiliad o dawelwch.)
Rhai ohonom yn gaeth i waith beunyddiol digyfeiriad a di-nod; eraill yn weision i dipiadau'r cloc.
(Eiliad o dawelwch.)
Rhai yn gaeth i gyffuriau a diod; eraill yn weision i ffasiwn - yn arswydo rhag bod yn 'square'.
(Eiliad o dawelwch.)
Rhai ohonom yn gaeth i ormes hunanoldeb; eraill yn ildio'n barhaus i'r farn gyhoeddus.
Ie, Arglwydd, carcharorion ydym.
Erfyniwn am ryddhad, am gael clywed 'goriad dy gariad yn y clo yn agor drws ein carchar.
Dyro inni'r ewyllys a'r nerth i gerdded drwyddo - gyda thi.
Amen.

Owain Llyr Evans